**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Rhaglen Chraffu

**Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 10 Medi 2018 am 4.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M H Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | M Durke | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | P K Jones |
| W G Thomas | | |

**Aelodau Cyfetholedig Statudol:**

D Anderson-Thomas A Roberts

**Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig**

| | |
|---|---|
| P M Black | P R Hood-Williams |
| C A Holley | J W Jones |

**Hefyd yn bresennol**

Y Cynghorydd Clive Lloyd – Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Dirprwy Brif Swyddog Cyfreithiol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): E W Fitzgerald, B Hopkins, E T Kirchner, W G Lewis a/ac G J Tanner

Cynghorwyr sy'n Aelodau Cyfetholedig: M Sykes

---

## 40 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 41 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw gysylltiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 42 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 13 Awst 2018 fel cofnod cywir.

## 43 Cwestiynau Gan y Cyhoedd.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 44 Sesiwn Holi Aelod y Cabinet: Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad (y Cynghorydd Clive Lloyd).

Cyflwynodd Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Busnes a Pherfformiad adroddiad ar y prif benawdau ar gyfer y Portffolio Trawsnewid Busnes a Pherfformiad. Rhoddodd anerchiad llafar yn ogystal â'r adroddiad ysgrifenedig a gylchredwyd a oedd yn amlygu gweithgareddau ynghylch y canlynol: -

- Agenda Ddigidol
- Adolygiadau Comisiynu – Modelau cyflwyno newydd
- Cydlynwyr Ardaloedd Lleol
- Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol
- Arbedion ariannol
- Peilot Gwasanaethau yn y Gymuned

Roedd cwestiynau a thrafodaethau â'r Aelod Cabinet yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Y Gronfa Bensiwn – buddsoddiad mewn tanwyddau ffosil, y polisi presennol a'i addasrwydd
- Adolygiadau comisiynu - adrodd i'r gwasanaeth craffu am ganlyniadau ac effeithiolrwydd ar ôl eu rhoi ar waith
- Gweithio ystwyth - yr effaith ar y polisi gweithio ar eich pen eich hun yn sgîl mwy o weithio ystwyth a dulliau diogelu
- Risgiau a chadernid – cynnwys y risgiau sy'n ymwneud â Brexit a'r Fargen Ddinesig ar y gofrestr risgiau
- Cyllideb – pryder ynglŷn â morâl wrth i gyni barhau a'r effaith ar ddatblygiad sefydliadol
- Y Ganolfan Ddinesig - hyd y prydlesi a roddir i bartneriaid yn y sector cyhoeddus, a chynlluniau datblygu ar gyfer y Ganolfan Ddinesig
- Prosiect peilot Gwasanaethau yn y Gymuned - cynnwys partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth ddatblygu hwb cymunedol
- Cytundeb Prydles y Stadiwm Liberty - cynnydd ar gyflwyno caeau 3G
- Cydgynhyrchu - ymagwedd y cyngor at ymgynghori a chynnwys
- Moderneiddio'r cyngor - arbedion yn deillio o brosiectau TGCh
- Ystadau Strategol a Rheoli Eiddo - refeniw a dderbyniwyd drwy werthu tir nad oedd ei angen ar ôl yr adolygiad o holl dir y cyngor
- Rhaglen Gyfalaf - Bargen Ddinesig Bae Abertawe; datblygu strategaeth gyfalaf ar y cyd â datblygiadau technegol a gynigiwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA)
- Masnacheiddio – cynnydd ar y syniad o sefydlu cwmni ynni

**Penderfynwyd:** -

1) Y bydd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu'n ysgrifennu at Aelod y Cabinet, gan adlewyrchu'r drafodaeth a rhannu barn y pwyllgor;

2) Cyflwyno ymateb ysgrifenedig gan Aelod y Cabinet ar y canlynol:

- Gweithio ystwyth - hyd y prydlesi a roddir i bartneriaid yn y sector cyhoeddus yn y Ganolfan Ddinesig
- Gwybodaeth a newid busnes - arbedion sydd wedi deillio o foderneiddio/fuddsoddi mewn gwasanaethau digidol
- Rhaglen gyfalaf – eglurder am sefyllfa bresennol/gynnydd Bargen Ddinesig Bae Abertawe (cymeradwyo achosion busnes/derbyn arian grant) a gwybodaeth arall am ddatblygu strategaeth gyfalaf a pha ddatblygiadau technegol a gynigiwyd gan y CIPFA.
- Risgiau a chadernid – rhannu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol â phob cynghorydd

## 45 Adroddiadau Cynnydd y Panel Craffu Perfformiad:

Rhoddodd Peter Black, Cynullydd Panel Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion, ddiweddariad am waith y panel hyd yn hyn. Dywedodd fod un o'r materion allweddol, o ran y Gwasanaeth Anableddau Dysgu, yn parhau.

Tynnwyd sylw penodol at y cyfarfodydd canlynol sydd ar ddod: -

- 17 Medi 2018 – Craffu Cyn Penderfynu ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ar Wasanaethau Gofal Preswyl a Dydd ar gyfer Pobl Hŷn (bydd y Cynghorydd Chris Holley yn cadeirio yn absenoldeb y Cynghorydd Black)
- 15 Ionawr 2019 – bydd Prif Weithredwr a Chadeirydd PABM yn dod i roi gwybod i'r panel am eu gweledigaeth ar gyfer Abertawe pan fydd nifer yr awdurdodau yn PABM yn cael ei leihau i ddau
- 19 Mawrth 2019 – cyfarfod briffio ar ddiogelu – caethwasiaeth fodern/masnachu pobl (roedd y pwyllgor wedi cyfeirio'r eitem hon i'r panel)

**Penderfynwyd cofnodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

## 46 Trosolwg a Chraffu: Yn addas i'r dyfodol? - Cyngor Dinas a Sir Abertawe (Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru)

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, "Trosolwg a Chraffu: Addas i'r Dyfodol? – Cyngor Dinas a Sir Abertawe”.

Pwysleisiodd y Cadeirydd ei fod yn adroddiad cadarnhaol ar y cyfan a oedd yn cydnabod arfer craffu da. Mae'r adroddiad wedi dod i'r casgliad bod craffu yn Abertawe:

- Mewn sefyllfa dda i ymateb i heriau yn y dyfodol,
- Yn herio pobl sy'n gwneud penderfyniadau'n rheolaidd ac

- Mae ganddo drefniadau i adolygu ei effeithiolrwydd ei hun.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys tri chynnig ar gyfer gwella:
- Llunio rhaglen hyfforddiant a datblygiad ar gyfer aelodau craffu;
- Cryfhau gwerthusiad effaith a chanlyniadau gweithgareddau craffu; ac
- Egluro ymhellach y gwahaniaeth rhwng gweithgareddau pwyllgorau craffu a phwyllgorau datblygu polisïau mewn perthynas â datblygu polisïau.

Nododd y Cadeirydd fod rhaid i'r awdurdod lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad. Gofynnwyd am farn y pwyllgor i helpu i lywio datblygiad cynllun gweithredu priodol.

Bu'r pwyllgor yn trafod yr adroddiad ac yn benodol yn ystyried y cynigion ar gyfer gwella. Dywedwyd bod yr adroddiad yn gofyn am ymateb corfforaethol gan ei bod yn bosib y gall eraill gyfrannu camau gweithredu a fydd yn helpu i sicrhau gwelliant yn y meysydd hyn. Er enghraifft, mae anghenion/rhaglenni hyfforddi a datblygu'n rhywbeth y byddai Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd hefyd yn eu trafod, a byddai angen barn gan y Weithrediaeth ynghylch sicrhau gwahaniaeth clir rhwng pwyllgorau craffu a datblygu polisïau. Cyflwynodd y Cadeirydd sylwadau am yr angen i ailsefydlu mecanwaith ar gyfer Cadeirydd Craffu a chadeiryddion datblygu polisïau i gwrdd yn anffurfiol i drafod cynlluniau gwaith. Ystyriwyd bod yr angen i gasglu adborth Aelodau’r Cabinet o'u cysylltiadau â chraffu'n bwysig hefyd er mwyn cryfhau'r modd y gwerthusir effeithiolrwydd, effaith a chanlyniadau gweithgareddau craffu. Bu sylwadau hefyd am yr her o nodi canlyniadau mesuradwy ar ddechrau ymchwiliadau a all helpu i arddangos effaith.

**Penderfynwyd** y dylai'r ymateb/cynllun gweithredu drafft yn sgîl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ddychwelyd i Bwyllgor y Rhaglen Graffu ar ôl mewnbwn angenrheidiol gan aelodau/swyddogion perthnasol eraill.

## 47 Aelodaeth Paneli a Gweithgorau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am aelodaeth paneli a gweithgorau craffu.

Darparodd Arweinydd y Tîm Craffu ddiweddariad llafar i'r adroddiad:

**Penderfynwyd** cytuno ar y canlynol:

1) Panel Perfformiad y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd – tynnu enw'r Cynghorydd Irene Mann
2) Gweithgor Parcio i Breswylwyr – tynnu enwau'r Cynghorydd Mike Day, y Cynghorydd Chris Holley a'r Cynghorydd Robert Smith

## 48 Rhaglen Waith Craffu 2018/19.

Cyflwynodd y Cadeirydd y Rhaglen Waith Craffu ar gyfer 2018/19.

Tynnodd sylw at y ffaith y byddai'r cyfarfod nesaf ar 8 Hydref 2018 yn cynnwys yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol yn ogystal â Sesiwn Holi Aelod y Cabinet gydag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau.

Tynnodd Arweinydd y Tîm Craffu sylw at y canlynol: -

- Roedd cyfarfod cyntaf y Panel Ymchwiliad Anghydraddoldebau wedi'i drefnu ar gyfer 11 Hydref 2018
- Roedd cyfarfod cyntaf y Gweithgor Parcio i Breswylwyr wedi'i drefnu ar gyfer 3 Hydref 2018

Trafodwyd trefniadau ar gyfer craffu ar y Strategaeth Digartrefedd, yr oedd ymgynghoriad arni wrthi'n cael ei chynnal. Cytunodd y pwyllgor y dylid trefnu cyfarfod i'r pwyllgor drafod y Strategaeth Digartrefedd wrth i'r ymgynghoriad gael ei gynnal, cyn unrhyw waith craffu ar y strategaeth derfynol, sydd wedi'i drefnu ar gyfer cyfarfod y Cabinet ar 15 Tachwedd 2018.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi cynnydd ar Raglen Waith Craffu 2018/19; a
2) Threfnu cyfarfod arbennig i Bwyllgor y Rhaglen Graffu ystyried y Strategaeth Digartrefedd.

## 49 Llythyrau Craffu.

Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad am lythyrau craffu.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cofnod llythyrau'r Tîm Craffu.

## 50 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio (Er Gwybodaeth).

**Nodwyd** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. Dywedodd y Cadeirydd y bydd hi'n mynd i gyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 9 Hydref 2018 ac y byddai'n gwahodd Cadeirydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu i ddod i un o gyfarfodydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn y dyfodol.

## 51 Dyddiad ac Amser Cyfarfodydd Paneli/Gweithgorau Sydd ar Ddod.

**Nodwyd** dyddiadau ac amserau cyfarfodydd nesaf paneli/gweithgorau.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.51 pm

**Cadeirydd**